# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR ORFFENNAF 4ydd, 2023

## Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Ceri Jones (cadeirydd) | Cyng.Maldwyn Lewis |
| | Cyng. Sharon Thomas | Cyng. Emyr Jones |
| | Cyng. Mark Davies | Cyng. Sian Williams |
| | Cyng. Roger Davies | Cyng Rob Jones |

Clerc Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng.Teifi Evans, Cyng.Carol Davies ynghŷd a'r Cyng.Llŷr Evans.

**2. Datgan Diddordeb**

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- Cadarnhaodd y Cyng. Emyr Jones fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan y Cyng.Mark Davies.

**4. Materion yn Codi**

- 4.1 – Mae De-fib Penrhiwpal bellach yn gweithio.
- 4.2 – Mandate yn parhau – Cyng Sharon Thomas mewn cysylltiad gyda'r banc, ac angen ychwanegu y Cynghorwyr Carol Davies a Sian Williams.
- 4.3 - Atgyweirio to yr arhosfan bws yng Nghoedybryn. Mae 2 bris wedi dod i law, EDAF a G.D.Services. Y ddau yn agos o ran pris ond wedi penderfynnu mynd am yr un oedd yn nodi mwy o fanylder o ran diogelwch ac yn fodlon mynd a gweddillion yr hen do, felly EDAF i wneud y gwaith.
- 4.4 – Efallai fydd angen addasu ychydig ar gontract y Clerc o ran y gwaith cyfieithu.
- 4.5 – Cwrs Code of Conduct i'r Clerc. Aros nes fod Ceredigion yn rhedeg cwrs.
- 4.6 – cerrig man tu allan i Neuadd Ffostrasol, dal yr un peth
- 4.7 – Nododd y Clerc fod Ceredigion wedi bod mewn cysylltiad a bod y twll ger hen Ysgol Brongest ar eithin oedd wedi gor-dyfu wedi cael ei sortio allan.

**5. Materion y Cynghorydd Sir**

- 5.1 – Bu Ras yr Iaith yn Aberystwyth yn llwyddiant mawr gyda llawer o blant ysgolion cynradd y sir yn cymryd rhan. Mae'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn argoeli'n dda.
- 5.2 – Dychwelodd Gwyl Fawr Aberteifi yr wythnos dwethaf ar ol 4 mlynedd. Cynhaliwyd Talwrn y Beirdd yn y Castell yn ogystal ar Eisteddfod.
- 5.3 - Mae'r Cyngor Sir yn cymryd cartref yr henoed Hafan y Waun drosodd oddi wrth y Methodistiaid. Hwn fydd cartref i henod y Sir. Mae 90 o weliau yno ac mae hanner cant o ddeiliaid yno'n barod. Mae angen mwy o staff er mwyn llenwi'r cartref. Ar hyn o bryd mae llawer o Geredigion yn cael gofal mewn cartrefi tu allan y Sir, a'r gobaith yw dod a nhw nol i Aberystwyth i fod yn agosach at eu teuluoedd.

- 5.4 – Mae Llwybr yr Arfordir yng Ngheredigion yn dathlu 15 mlynedd, ac mae teithiau wedi eu trefnuar ddyddiadau gwahanol o Ynys Las i Gwbert. Llongyfarchiadau i Eifion Jones a'r tim.

**6. Gohebiaeth**

- 6.1 - Mae pecyn cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu am y 20 mya fydd yn dod yn fuan ar gael yn awr.
- 6.2 – Mae Cyfarfod gan Gymorth Cynllunio Cymru ar Orffennaf 12fed.
- 6.3 – Un Llais Cymru – arolwg cysylltedd, mae croeso i'r cyhoedd leisio eu barn ar y we.
- 6.4 – Heno cynhaliwyd Pwyllgor Ardal Ceredigion. Yn anffodus oherwydd fod yr un noson a Cyfafrod Cymuned Troedyraur, nid oedd yn bosib i neb fynychu.
- 6.5 – Llythyr wedi dod i law wrth Mags Sinnett Jones ( ond ar ol i'r Agenda fynd allan) yn holi am gyfraniad i'r Gystadleuaeth Aredig ym mis Medi. Maent yn ddibynnol ar gyfraniadau blynyddol.
  Cynigiodd y Cyng.Sian Williams ein bod yn cyfrannu £100 at yr achos gan ei bdo yn rhywbeth lleol i ni. Eiliodd y Cyng.Maldwyn Lewis ac roedd pawb oedd yn bresennol yn gytun.
- 6.6 – Adroddiad Pedriatig De Ceredigion. Bu ymgynghoriad am y gwasanaeth plant heddiw gyda llawer o staff y GIG yn bresennol. Mae'n fwy o broblem yn Sir Benfro na Cheredigion. Mae 3 opsiwn ar gael. Mae ambiwlans ar gael yn arbennig i blant i'w symud yn ol yr angen i Glangwili. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar ochr y plant yn arbennig, ond mae'n debyn mae'r broblem fwyaf yw staffio yn yr ysbytai. Yn Glangwili mae'n debyg fod diffyg lle a gwelyau yn broblem fawr. ( Mae hwn wedi ei rannu eto ar Facebook i unrhyw un leisio barn).

**7.Cynllunio**

- 7.1 – Un wedi dod i law yn Blaenffos, Bwlchygroes. Nid oes gennym wrthwynebiad i'r estyniad.

**8. Cyllid**

- 8.1 – Pawb oedd yn bresennol yn cytuno i dalu'r taliadau, ac arwyddwyd y sieciau gan y Cynghorwyr Emyr Jones a Rob Jones.

  | | | |
  |---|---|---|
  | HMRC - | £43.40 | 001709 |
  | Cyflog y Clerc - | £173.80 | 001710 |
  | Ashmole & Co - | £85.80 | 001711 |
  | Treuliau'r Clerc a Cyfieithu- | £224.95 | 001712 |
  | BHIB Yswiriant - | £891.69 | 001713 |
  | Gwyn Jones Awdit - | £350.00 | 001714 |

- 8.2 – Pawb wedi derbyn adroddiad Gwyn Jones am yr Awdit. Hoffai pawb ddiolch yn fawr iddo am ei waith arbennig. Nodwyd fod angen edrych ar y materion sy'n codi a mynd trwy'r rhestr gan edrych ar y rhai sydd angen blaenoriaethu yn gyntaf. Angen gosod ar Agenda mis Medi i drafod. Yn ogystal a'r adroddiad, cadarnhawyd fod yr Awdit yn gywir a llofnodwyd gan y Cadeirydd Ceri Jones a'r Clerc Rhian Jones.
- 8.3 – Mae angen i'r Clerc i anfon llythyr i'r Banc i drosglwyddo £6,000 o'r Cyfrif Busnes i'r Cyfrif Cyfredol.

**9. Materion Ardal**

- 9.1 - Mae arwyddion y Pentrefi yn edrych yn wael mewn sawl man ac mae sawl un wedi cael ei ddwyn. Trafodwyd a fyddai modd i ni fel Cyngor brynnu rhai newydd ond maent yn gostus iawn, ac efallai cawn nhw eu dwyn eto.
- 9.2 – Mae'r potiau blodau yn edrych yn dda iawn yn y pentrefi, ond nodwyd nad oedd lleoliad ambell un, o dan coeden ddim mor llewyrchus a'r rhai oedd allan yn yr haul. Mae'r Cynghorwyr yn ogystal a phentrefwyr wedi bod yn barod iawn i helpu cynnal y potiau trwy eu dyfrio a thacluso o'i amgylch. Mae sawl un yn Ffostrasol wedi canmol edrychiad y potiau sy'n harddu ein pentrefi.
- 9.3 – Bydd angen i'r Clerc fynd i Trefhedyn i holi am y bil am y potiau a'r compost. Mae Trefhedyn wedi rhoi'r blodau i ni am ddim. Cost y potiau oedd £40 yr un a'r compost yn £12 i bob pot, felly dylai'r cyfanswm am 16 fod yn £832.
- 9.4 – Mae'r Cyng Maldwyn Lewis wedi dod a derbyneb wrth Calon Heart am y bocsys Defibs newydd i'r pentrefi. Nid ydynt wedi cyrraedd eto, ond roedd rhaid talu ymlaen llaw, felly bydd angen ad-daliad ar y Cyng.ML mis Medi.
- 9.5 – Estynodd y Cyng.Maldwyn Lewis groeso cynnes i ni fel aelodau o Gyngor Cymuned Troedyraur i ymuno ag ef yng Ngwasanaeth y Sir yng Nghapel Bryngwenith ar Awst 27ain am 2 o'r gloch y prynhawn. ( Angen i'r Clerc e-bostio holl aelodau'r Cyngor gan fod rhai yn absennol heno).

**10. Cyfarfod Nesaf**

- 10.1 – Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis ar Fedi 5ed am 7:30yh
- 10.2 – Gan nad oedd dim arall i'w drafod tynnoddd y Cadeiridd y cyfarfod i ben am 9:10 o'r gloch.

**Cadarnhawyd fod y cofnodion hyn yn gywir.**

**Llofnod** **Dyddiad**

------------------------------------------------------------ -----------------------------------